Ministry of Justice

**Datganiad Cydraddoldeb**
**Crynodeb o'r Polisi**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynghylch a ddylai gwrandawiadau parôl yng Nghymru a Lloegr fod yn agored i ddioddefwyr a/neu aelodau o'r cyhoedd a'r cyfryngau.
Cysidra'r ymgynghoriad hwn:

a) Y buddion a'r heriau posibl o ganlyniad i wneud gwrandawiadau yn agored I ddioddefwyr a/neu'r cyhoedd a'r cyfryngau
b) Yr ystyriaethau ymarferol o gynnal gwrandawiadau cyhoeddus

Mae'r ddogfen hon yn asesu effeithiau posibl y mesurau ar gydraddoldeb. Trafodir y rhain o fewn yr ymgynghoriad.
Byddwn yn diweddaru ein hystyriaethau cydraddoldeb yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Dyletswyddau cydraddoldeb**

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010[1], mae dyletswydd gyfreithiol barhaus (DCSC) ar y WG wrth weithredu ei swyddogaethau i roi sylw dyledus i'r angen am:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiadau gwaharddedig eraill yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o gobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig a'r rhai nad ydynt; a
- faethu perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.

Rydym hefyd yn cydnabod bod dyletswydd ar yr WG, fel darparwr gwasanaeth, i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Dylid ystyried rhoi sylw dyledus i'r DCSC yng ngoleuni'r naw nodwedd gwarchodedig:

- Hil
- Gogwydd rhywiol
- Priodas / Partneriaeth Sifil
- Rhywedd (sex)
- Crefydd neu gred
- Ailbennu Rhywedd
- Anabledd
- Oedran
- Beichiogrwydd/Mamolaeth

**Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon**

***Gwahaniaethu uniongyrchol***

Ni chredwn fod cynnig presenoldeb cyhoeddus mewn gwrandawiadau parôl yn gwahaniaethu'n uniongyrchol gydag ystyr y Ddeddf Gydraddoldeb. Mae hyn am fod wnelo hwy yn gyfartal â phob troseddwr a dioddefwr, p'un a oes ganddynt nodwedd gwarchodedig ai peidio. Ni chredwn y byddai'r cynigion yn arwain at drin pobl yn lai ffafriol oherwydd nodweddion gwarchodedig.

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf

***Gwahaniaethu anuniongyrchol***
Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd polisi yr un mor berthnasol i bob unigolyn ond byddai'n rhoi'r rheini sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig dan anfantais benodol o gymharu â'r rhai nad ydynt.

Ein barn ddechreuol yw nad yw cynnig presenoldeb cyhoeddus mewn gwrandawiadau parôl yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol oherwydd credwn nad ydynt yn rhoi unigolion gyda nodweddion gwarchodedig dan anfantais benodol o'u cymharu gydag eraill nad ydynt yn rhannu'r nodweddion rheiny.

Fodd bynnag, cydnabyddwn fod carcharorion gyda nodweddion gwarchodedig penodol wedi'i gorgynrychioli o'u cymharu gyda'r boblogaeth gyffredin. Mae carcharorion yng Nghymru a Lloegr yn dueddol o fod yn:
- Wrywaidd (95% o garcharorion [2] vs 49% o'r boblogaeth[3])
- Rhwng 30-39 mlwydd oed (31%[2] vs 13%[4])
- Du, Asiaidd neu o gefndir Lleiafrifol Ethnig (27%[2] vs 14%[5])
- Fwy tebygol o fod yn Foslemiaid (16%[2] vs 5%[6])

Os yw'r Llywodraeth yn bwriadu dilyn y cynigion polisi ar bresenoldeb y cyhoedd mewn gwrandawiadau parôl, byddai'n cael ei weithredu mewn ffordd a fyddai'n osgoi unrhyw anfantais neu effaith andwyol ar unrhyw grŵp neu bobl benodol a fyddai'n cyfranogi. Dyna bwrpas yr ymgynghoriad hwn yn rhannol – er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o adnabod amgylchiadau lle gallai gwrandawiad cyhoeddus fod yn briodol ac yn fuddiol heb roi unrhyw gyfranogwr dan anfantais. Yn ogystal, ceisio barn ar sut y gellid cynnal gwrandawiadau cyhoeddus mewn modd a fyddai'n osgoi'r risg o effeithiau andwyol ar y sawl sydd dan sylw. Pe dangosir ei fod yn rhoi rhai grwpiau neu unigolion dan anfantais, byddai angen pwyso a mesur hynny yn erbyn y nod cyfiawn a chymesur o sicrhau cyfiawnder tryloywach a mwy agored a hyder cyhoeddus yn y system parôl.

**Ystyriaethau polisi**
Rydym yn cydnabod bod nifer o ystyriaethau cydraddoldeb y mae'n rhaid eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniad ynghylch cyflwyno dioddefwr neu bresenoldeb cyhoeddus ehangach mewn gwrandawiadau parôl.
Fel yr eglurwn yn y ddogfen ymgynghori, mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl glywed tystiolaeth am faterion personol sensitif a allai effeithio ar y carcharor, dioddefwr y drosedd a'u teuluoedd, ffrindiau a chymdeithion priodol. Mae effeithiau posibl hefyd ar aelodau panel y Bwrdd Parôl a'r tystion sy'n rhoi tystiolaeth yn y gwrandawiad.
O safbwynt carcharorion, y prif bryderon a nodwyd gennym yw:

- **Amddiffyn troseddwyr ifanc o dan 18 oed:** Mae potensial i wrandawiad cyhoeddus ar gyfer plentyn dan 18 oed gael effaith mwy niweidiol ar eu gallu i

[2] https://www.gov.uk/government/statistics/hm-prison-and-probation-service-offender-equalities-annual-report-2018-to-2019
[3] https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/demographics/male-and-female-populations/latest
[4] https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/demographics/age-groups/latest
[5] https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/national-and-regional-populations/population-of-england-and-wales/latest
[6] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/articles/exploringreligioninenglandandwales/february2020#size-of-the-religious-populations

ailsefydlu yn y gymuned ac osgoi aildroseddu. Gall cyhoeddi manylion am y troseddwr ifanc hefyd arwain at ganlyniadau niweidiol i'w bywydau personol, eu rhagolygon cyflogaeth a bywydau eu rhieni neu eu gwarcheidwaid. Felly, rydym yn cynnig y byddai'n amhriodol cynnal gwrandawiad cyhoeddus ar gyfer plant dan 18 oed o dan unrhyw amgylchiadau.

- **Gwendidau iechyd meddwl:** Rhaid ystyried ein bod yn bosib i'r broses gwrandawiad llafar presennol fod yn anodd iawn i rai carcharorion oherwydd cyflyrau iechyd meddwl. Byddai'r rhagolwg o wrandawiad cyhoeddus yn cael effaith sylweddol fwy arnynt a gallai fod yn anrheg eu dinoethi i'r sylw pellach y byddai'n achosi. Gallai effeithio ar eu hymddygiad yn ystod y gwrandawiad neu ansawdd eu tystiolaeth ac felly gallai leihau eu siawns o gael eu rhyddhau, sy'n annheg. Ni fyddem yn cynnig gwaharddiad cyffredinol ar wrandawiadau cyhoeddus i garcharorion â materion iechyd meddwl. Fodd bynnag, os cyflwynir gwrandawiadau cyhoeddus yna credwn y dylai'r Bwrdd Parôl ystyried y ffactor hwn wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid clywed gwrandawiad yn gyhoeddus, neu a ddylid caniatáu i ddioddefwr fod yn bresennol.

- **Nodweddion gwarchodedig:** Rhaid i benderfyniadau ynghylch cynnal gwrandawiad cyhoeddus sicrhau na wahaniaethir yn erbyn carcharorion am unrhyw reswm. Mae dwy ran i hyn**.** Yn gyntaf, byddai angen gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod modd i garcharorion ag anableddau, fel dallineb neu fyddardod, gyfrannu'n llawn i'r gwrandawiad. Byddai angen i wrandawiadau wyneb yn wyneb fod yn addas ar gyfer carcharorion sydd â phroblem symudedd, megis mynediad i gadeiriau olwyn. Yn ail, byddai angen i unrhyw benderfyniad dros gynnal gwrandawiad cyhoeddus fod yn ystyriol o effaith datgelu gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif am garcharorion, megis a ydynt wedi ailbennu rhywedd yn ystod eu dedfryd. Yn yr un modd ag achos o freuder iechyd meddwl, ni fyddem yn cynnig unrhyw eithriad awtomatig o wrandawiadau cyhoeddus mewn achosion o'r fath ond yn amlwg mae'r rhain yn ffactorau y byddai angen i'r Bwrdd Parôl eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad cyhoeddus pe cyflwynir opsiwn o'r fath mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

- **Carcharorion amlwg** – Mae'n bwysig sicrhau nad yw carcharorion yn cael eu trin yn wahanol ar sail drwg-enwogrwydd eu troseddau neu ddiddordeb y cyfryngau yn eu hachosion. Bydd hwn yn fater anodd ei gydbwyso oherwydd bydd diddordeb cyhoeddus yn ffactor pwysig o blaid cynnal gwrandawiad cyhoeddus a'r achosion amlycaf a drwg-enwocaf fydd fwyaf tebygol o ennyn diddordeb y cyhoedd. Y ffactor allweddol fydd rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad yw cael gwrandawiad cyhoeddus yn cyflwyno unrhyw ragfarnau ym mhenderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Yn nodweddiadol mae paneli Bwrdd Parôl ar gyfer achosion amlwg neu gymhleth yn cael eu cadeirio gan aelodau barnwrol, a bydd gan y mwyafrif ohonynt brofiad o ddelio â threialon troseddol amlwg neu achosion cyfreithiol. Nid oes felly reswm dros awgrymu y byddent yn agored i ragfarn neu bwysau cyhoeddus, ond mae'n fater y byddai angen ei arolygu. Ffactor cysylltiedig yw'r rhagolwg y gallai mwy o archwilio cyhoeddus effeithio ar y dystiolaeth a ddarperir gan y tystion. Er enghraifft, mae'n bosib y gallent fod yn llai parod i argymell rhyddhau carcharor mewn gwrandawiad cyhoeddus oherwydd ofn beirniadaeth gan y cyhoedd neu'r cyfryngau.

O ran dioddefwyr, rydym wedi adnabod y pryderon canlynol:

- **Nodweddion gwarchodedig**: Os cyflwynir gwrandawiadau cyhoeddus neu well mynediad i ddioddefwyr i wrandawiadau yna bydd angen gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cynnwys mynychwyr sydd ag anableddau corfforol neu anableddau eraill. Bydd angen i benderfyniadau ynghylch datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â dioddefwyr yn ystod gwrandawiadau hefyd ystyried presenoldeb gwybodaeth bersonol sensitif arall a allai fod yng nghynnwys y dystiolaeth neu Ddatganiad Personol y Dioddefwr.

- **Lles**: Rydym wedi nodi o fewn y ddogfen ymgynghori ein bod yn credu y byddai llawer o ddioddefwyr yn croesawu'r cyfle i fynychu gwrandawiad parôl yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, gallai natur y dystiolaeth y mae'n rhaid ei drafod olygu y byddai ei glywed yn brofiad trawmatig i ddioddefwyr. Os bydd y rheolau yn cael eu newid a chaniateir dioddefwyr i arsylwi gwrandawiadau'n llawn, bydd dyletswydd ar y Llywodraeth a'r Bwrdd Parôl i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am sut y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal a'r hyn y bydd yn ei olygu fel bod modd iddynt wneud penderfyniad gwybodus. Byddem eisiau sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gefnogaeth briodol cyn, yn ystod ac ar ôl y gwrandawiad i leihau unrhyw effaith negyddol arnynt.

- **Preifatrwydd / Amddiffyn rhag ymyrraeth neu aflonyddu:** Mae'n rhaid i banel y Bwrdd Parôl fod yn rhydd i archwilio unrhyw agwedd ar yr achos a allai fod yn berthnasol i'r asesiad risg. Ceir rhai achosion lle bydd hyn, o reidrwydd, yn cynnwys trafod gwybodaeth bersonol sensitif am ddioddefwyr gan gynnwys natur y drosedd, yr anafiadau neu anwireddau eraill a barwyd iddynt a chymhelliant y troseddwr dros eu gweithredu. Efallai bydd blynyddoedd lawer ers y drosedd ac efallai bod y dioddefwyr wedi dewis peidio â datgelu manylion wrth eu teuluoedd, ffrindiau neu gymdeithion. Gall datgelu yn y modd hwn fod yn niweidiol iawn i ddioddefwyr ac felly mae'n angenrheidiol bod unrhyw benderfyniad dros gyflwyno gwrandawiadau cyhoeddus neu ganiatáu dioddefwyr fynychu gwrandawiadau yn ystyried sut y gellir amddiffyn dioddefwyr i'r eithaf heb gyfaddawdu ar gyfanrwydd y gwrandawiad neu allu'r Bwrdd I wneud penderfyniad gwybodus.

O ran aelodau panel a thystion, y pryderon yw:

- **Preifatrwydd / amddiffyn rhag aflonyddu:** Gall cyflwyno gwrandawiadau cyhoeddus neu bresenoldeb dioddefwyr olygu y caiff hunaniaeth aelodau'r panel a'r tystion ei ddatgelu i'r rhai sy'n mynychu. Mae'r posibilrwydd o hyn yn dibynnu ar sut y caiff y gwrandawiad ei weithredu. Gallai hyn gynyddu'r perygl iddynt fod yn agored i ymyrraeth neu aflonyddwch a bydd angen rheoli'r risg hwn yn ofalus. Gellir gwneud hyn drwy geisio atal delweddau neu recordiad o'r gwrandawiad gael eu dal a'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd angen i ni hefyd ystyried lles y rhai y gofynnir iddynt roi tystiolaeth mewn gwrandawiadau cyhoeddus ac ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

- **Nodweddion gwarchodedig**: Gweithredodd y Bwrdd Parôl gamau er mwyn gwella amrywiaeth. Dengys eu Hadolygiad Blynyddol a'u Cyfrifon[7] bod y 205 aelod o'r Bwrdd Parôl a wnaeth ddatganiadau yn cynnwys 121 (59%) menyw, 24 (12%) menyw o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (17%) ac roedd gan 34 (17%) anabledd.

**Aflonyddu ac erledigaeth**
Amlinellom uchod y sefyllfaoedd lle gallai risg o aflonyddu ac erledigaeth godi ac fe'u hystyrir hyn gennym wrth benderfynu a ddylid caniatáu dioddefwr neu bresenoldeb cyhoeddus ehangach mewn gwrandawiadau parôl.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal**
Rhoddwyd ystyriaeth i sut mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ddiwallu anghenion troseddwyr a dioddefwyr sy'n rhannu nodwedd benodol, lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i angen y rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno.

Disgwylir y bydd y cynigion hyn o fudd i ddioddefwyr trwy wella eu mynediad at gyfiawnder a rhoi sicrwydd ychwanegol iddynt trwy fynychu gwrandawiadau'r Bwrdd Parôl.

**Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**
Heblaw am y sylwadau a restrir uchod ac yn y ddogfen ymgynghori, o safbwynt bobl anabl, credwn nad oes angen addasiadau ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar waith yn nyletswyddau statudol y Bwrdd Parôl a charchardai. Wrth ledaenu gwybodaeth, dylai carchardai a'r Bwrdd Parôl ystyried materion anabledd, rhifedd a llythrennedd, ac anawsterau cyfathrebu a dysgu.

**Meithrin cysylltiadau da**
Nid ydym o'r farn bod unrhyw effaith sylweddol ar gyflawni'r amcan hwn